Methodoleg, canlyniadau a dadansoddiadau'r arolwg plant

# Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ei Fawrhydi (STIEF) y Parc

Mawrth 2026

# Cynnwys

Methodoleg yr arolwg plant ........................................................................... 3

Canlyniadau a dadansoddiadau’r arolwg plant.................................................. 5

# Methodoleg yr arolwg plant

Cynhelir arolwg cyfrinachol o blant ar ddechrau pob arolygiad ac adolygiad o gynnydd. Cynigir holiadur i bob plentyn sydd yn y sefydliad ar ddiwrnod yr arolwg i'w lenwi ei hun. Mae'r holiadur yn cynnwys cwestiynau wedi'u strwythuro sy'n ymdrin â 'thaith' y plentyn, o dderbyn i ryddhau, ynghyd â chwestiynau demograffig a chefndir sy'n ein galluogi i gymharu ymatebion o wahanol is-grwpiau (os bydd y niferoedd yn caniatáu). Mae rhywfaint o gwestiynau agored hefyd sy'n rhoi cyfle i blant fynegi yn eu geiriau eu hunain yr hyn sydd fwyaf cadarnhaol a negyddol am y ganolfan.

Defnyddir canlyniadau'r arolwg mewn arolygiadau ac adolygiadau o gynnydd, lle cânt eu didoli yn ôl arsylwadau'r arolygwyr, trafodaethau gyda'r plant a'r staff a'r dogfennau a gaiff eu cadw yn y sefydliad. Mae rhagor o fanylion ar gael yn adroddiad yr arolygiad.

Mae'r holiadur presennol wedi bod yn cael ei ddefnyddio ers mis Hydref 2018 (diwygiwyd ym mis Ebrill 2023) ac mae'n cael ei ddefnyddio i gefnogi arolygiadau o'r Canolfannau Hyfforddi Diogel (STC) a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc sy'n cadw plant, yn ogystal ag adolygiadau o gynnydd Sefydliadau Troseddwyr Ifanc. Datblygwyd yr holiadur mewn ymgynghoriad ag Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ac arolygwyr Ofsted. Profwyd cwestiynau drafft gyda phlant yn y ddau fath o sefydliad ac roedd eu mewnbwn a'u hadborth yn amhrisiadwy o ran gwella perthnasedd a hygyrchedd y cwestiynau.

## Dosbarthu a chasglu holiaduron

Roedd ymchwilwyr Arolygiaeth Carchardai EF wedi dosbarthu a chasglu'r holiaduron yn bersonol. Er mwyn i'r plant allu rhoi eu caniatâd gwybodus i gymryd rhan, esboniwyd pwrpas yr arolwg a'r arolygiad.

Rhoddwyd gwybod i'r plant bod cymryd rhan yn yr arolwg yn wirfoddol. Esboniwyd hefyd, er nad oedd angen iddynt roi eu henwau ar yr holiadur, y gellid adnabod ymatebwyr unigol drwy system rhifo sydd ond ar gael i'r tîm arolygu. Roedd hyn er mwyn mynd ar drywydd unrhyw bryderon diogelu ac amddiffyn plant (gweler yr adran isod am ragor o wybodaeth).

Cafodd y plant a gytunodd i gymryd rhan yn yr arolwg amlen a oedd yn gallu cael ei selio i gadw'r holiadur ar ôl iddyn nhw ei lenwi, a chawsant wybod pryd y byddai'r ymchwilwyr yn dychwelyd i'w gasglu.

## Amddiffyn a diogelu plant

Gwiriwyd yr holl holiaduron a lenwyd gan ymchwilwyr ar gyfer materion amddiffyn a diogelu plant posibl ar ddiwrnod yr arolwg. Dilynwyd unrhyw bryderon gan arolygwyr a'u trosglwyddo i staff y sefydliad os oedd angen.

## Ymatebion i'r arolwg

Adeg yr arolwg ar 9 Mawrth 2026, y boblogaeth yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ei Fawrhydi y Parc oedd 39. Gan ddefnyddio'r dull a ddisgrifiwyd uchod, dosbarthwyd holiaduron i 38 o blant. Nid oedd modd dosbarthu'r holiadur i un plentyn oherwydd barnwyd nad oedd yn briodol. Cafodd cyfanswm o 33 o holiaduron eu llenwi, sy'n gyfradd ymateb o 87%. Gwrthododd pum person ifanc i gymryd rhan yn yr arolwg.

Mae'r adroddiad llawn ar gael ar ein gwefan yn:
https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/inspections/

# Canlyniadau a dadansoddiadau'r arolwg plant

Ar y tudalennau canlynol rydym yn cyflwyno holl ganlyniadau'r arolwg, a ddilynir gan nifer o ddadansoddiadau cymharol ar gyfer Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ei Fawrhydi y Parc. Ar gyfer y dadansoddiadau cymharol, lle bo'n berthnasol, ail-luniwyd pob cwestiwn gan ddefnyddio'r prawf Chi-sgŵar (neu brawf union Fisher os oes llai na phum cyfrifiad disgwyliedig mewn cell), i fformat 'ie/na' deuaidd a chymharwyd yr ymatebion cadarnhaol. Mae ymatebion coll wedi cael eu heithrio o'r holl ddadansoddiadau, ac mae ymatebion gan is-grŵp o'r sampl wedi cael eu cofnodi ar gyfer rhai cwestiynau (fel mae'r data'n dangos).

## Ymatebion gan Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ei Fawrhydi y Parc 2026 o'u cymharu ag ymatebion arolygon eraill Arolygiaeth Carchardai EF

**Gwneir y dadansoddiadau hyn ar ddata cryno o holl gwestiynau'r arolwg.**

- Ymatebion arolwg STIEF y Parc yn 2026 o'u cymharu ag ymatebion arolwg gan Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill a arolygwyd ers mis Ebrill 2025.
- Ymatebion arolwg gan Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ei Mawrhydi y Parc yn 2026 o'u cymharu ag ymatebion arolwg gan yr holl sefydliadau eraill sy'n dal plant. Cafodd yr arolygon cymharol eu cynnal mewn un STC ac arolygwyd tri Sefydliad Troseddwyr Ifanc ers mis Ebrill 2025.
- Ymatebion arolwg gan STIEF y Parc yn 2026 o'u cymharu ag ymatebion arolwg o arolygiad STIEF y Parc ym mis Hydref 2023.

## Cymariaethau rhwng gwahanol leoliadau preswyl yn STIEF y Parc 2026

- Ymatebion plant ar uned E o'u cymharu ag ymatebion plant ar uned G.

## Cymariaethau rhwng is-boblogaethau plant a hunan-adroddwyd yn STIEF y Parc 2026

**Gwneir y dadansoddiadau hyn ar ddata cryno o gwestiynau dethol yr arolwg yn unig.**

- Ymatebion y plant o bob grŵp ethnig arall o'u cymharu ag ymatebion y plant gwyn.
- Ymatebion y plant a ddywedodd fod ganddynt anabledd o'u cymharu ag ymatebion y plant na ddywedodd hynny.

Sylwch mai dim ond os oes o leiaf 10 ymateb ym mhob grŵp cymharu y byddwn yn cynnal dadansoddiad cymaryddion o fewn y carchar, ac mae'n rhaid i hynny hefyd gynrychioli o leiaf 10% o'r holl ymatebion.

Yn y dadansoddiadau cymharol, dangosir gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol drwy ddefnyddio graddliwio. Mae'r trothwy tebygolrwydd (h.y. gwerth-p) wedi'i osod ar 0.01 sy'n golygu bod tebygolrwydd o 1% mai hap a damwain sy'n gyfrifol am y gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y ddau

grŵp. Defnyddir y lliw gwyrdd i ddangos canlyniadau sy’n llawer mwy cadarnhaol, a defnyddir y lliw glas i ddangos canlyniadau sy’n llawer mwy negyddol. Defnyddir y lliw oren i ddangos gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol o ran demograffeg neu fanylion cefndir eraill. Os nad oes unrhyw liw, nid yw’r gwahaniaeth rhwng y ddau ganlyniad yn arwyddocaol o safbwynt ystadegol, ac efallai ei fod wedi digwydd drwy hap a damwain. Mae’r lliw llwyd yn dangos nad oes data cymharol dilys ar gael ar gyfer y cwestiwn hwnnw.

Mae cwestiynau wedi’u hidlo yn cael eu mewnoli ac yn cael eu rhagflaenu gan esboniad mewn italig o sut mae’r hidlydd wedi cael ei ddefnyddio. Yn y dadansoddiadau cymharol, mae canrannau ar gyfer cwestiynau wedi’u hidlo yn cyfeirio at nifer yr ymatebwyr sydd wedi’u hidlo i’r cwestiwn hwnnw. Ar gyfer pob cwestiwn arall, mae canrannau’n cyfeirio at gyfanswm yr ymatebion dilys i’r cwestiwn.

## Gwybodaeth gefndir

**C1.1 Ar ba adain, uned neu floc tŷ ydych chi'n byw?**

| | |
|---|---|
| Adain E | 16 (48%) |
| Adain G | 17 (52%) |

**C1.2 Faint yw eich oed?**

| 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 neu hŷn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 1 (3%) | 2 (6%) | 26 (79%) | 4 (12%) |

**C1.3 Beth yw eich rhywedd?**

| | |
|---|---|
| Gwryw | 33 (100%) |
| Benyw | 0 (0%) |
| Anneuaidd | 0 (0%) |
| Arall | 0 (0%) |

**C1.4 Beth yw eich grŵp ethnig?**

| | |
|---|---|
| Gwyn - Cymreig / Seisnig / Albanaidd / Gogledd Iwerddon / Prydeinig | 18 (55%) |
| Gwyn - Gwyddelig | 0 (0%) |
| Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | 2 (6%) |
| Gwyn - unrhyw gefndir Gwyn arall | 0 (0%) |
| Cymysg - Gwyn a Du Caribïaidd | 4 (12%) |
| Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd | 0 (0%) |
| Cymysg - Gwyn ac Asiaidd | 0 (0%) |
| Cymysg - unrhyw gefndir ethnig Cymysg arall | 1 (3%) |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig - Indiaidd | 0 (0%) |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig - Pacistanaidd | 1 (3%) |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig - Bangladeshaidd | 0 (0%) |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig - Tsieineaidd | 0 (0%) |
| Asiaidd - unrhyw gefndir Asiaidd arall | 1 (3%) |
| Du / Du Prydeinig - Caribïaidd | 2 (6%) |
| Du / Du Prydeinig - Affricanaidd | 1 (3%) |
| Du - unrhyw gefndir Du / Affricanaidd / Caribïaidd arall | 0 (0%) |
| Arabaidd | 0 (0%) |
| Unrhyw grŵp ethnig arall | 3 (9%) |

**C1.5 Oes gennych chi blant?**

| | |
|---|---|
| Oes | 6 (19%) |
| Nac oes | 26 (81%) |

**C1.6 Ydych chi'n dod o gymuned teithwyr (e.e. Sipsi, Roma, Teithiwr Gwyddelig)?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 5 (16%) |
| Nac ydw | 27 (84%) |

**C1.7 Ydych chi erioed wedi bod mewn gofal awdurdod lleol (e.e. wedi byw gyda rhieni maeth neu mewn cartref plant, neu wedi cael gweithiwr cymdeithasol)?**

| | |
|---|---|
| Do | 29 (91%) |
| Naddo | 3 (9%) |

**C1.8 Ydych chi'n bwrw dedfryd ar hyn o bryd?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 23 (72%) |
| Nac ydw – ar remánd neu'n aros am ddedfryd | 9 (28%) |

## Cyrraedd a chynefino

**C2.1 Pan roeddech chi'n cael eich chwilio yn y dderbynfa/uned dderbyn, a gafodd hyn ei wneud mewn ffordd barchus?**

| | |
|---|---|
| Do | 24 (75%) |
| Naddo | 0 (0%) |
| Ddim yn cofio | 5 (16%) |
| Ni wnaeth unrhyw un fy chwilio | 3 (9%) |

**C2.2 Yn gyffredinol, sut cawsoch chi eich trin yn y dderbynfa/uned dderbyn?**

| | |
|---|---|
| Yn dda | 25 (78%) |
| Yn wael | 1 (3%) |
| Ddim yn cofio | 6 (19%) |

**C2.3 Pan gyrhaeddoch chi yma am y tro cyntaf, a wnaeth y staff eich helpu gydag unrhyw broblemau neu bryderon oedd gennych chi?**

| | |
|---|---|
| Do | 13 (41%) |
| Naddo | 4 (13%) |
| Ddim yn cofio | 7 (22%) |
| Doedd gen i ddim problemau na phryderon | 8 (25%) |

**C2.4 Oeddech chi'n teimlo'n ddiogel ar eich noson gyntaf yma?**

| | |
|---|---|
| Oeddwn | 26 (81%) |
| Nag oeddwn | 4 (13%) |
| Ddim yn cofio | 2 (6%) |

**C2.5 Yn ystod eich diwrnodau cyntaf, gawsoch chi wybod popeth yr oedd angen i chi ei wybod am fywyd yma?**

| | |
|---|---|
| Do | 23 (74%) |
| Naddo | 8 (26%) |

## Amodau byw

**C3.1 Pa mor gyfforddus yw tymheredd eich cell?**

| | |
|---|---|
| Rhy oer | 7 (23%) |
| Yn iawn | 18 (58%) |
| Rhy boeth | 6 (19%) |

**C3.2 Ydych chi'n gallu cael cawod bob dydd?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 32 (100%) |
| Nac ydw | 0 (0%) |
| Ddim yn gwybod | 0 (0%) |

**C3.3 Oes gennych chi ddigon o ddillad glân, addas ar gyfer yr wythnos fel arfer?**

| | |
|---|---|
| Oes | 28 (88%) |
| Nac oes | 3 (9%) |
| Ddim yn gwybod | 1 (3%) |

**C3.4 Ydych chi'n cael dillad gwely glân bob wythnos?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 23 (72%) |
| Nac ydw | 7 (22%) |
| Ddim yn gwybod | 2 (6%) |

**C3.5 Ydych chi'n gallu cael eich eiddo sydd wedi'i storio os oes ei angen arnoch?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 19 (59%) |
| Nac ydw | 2 (6%) |
| Ddim yn gwybod | 11 (34%) |

**C3.6 A yw fel arfer yn ddigon tawel i chi ymlacio neu gysgu yn y nos?**

| | |
|---|---|
| Ydy | 15 (47%) |
| Nac ydy | 15 (47%) |
| Ddim yn gwybod | 2 (6%) |

**C3.7 A ydych yn treulio mwy na 2 awr allan o'ch cell fel arfer yn ystod yr wythnos?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 27 (87%) |
| Nac ydw | 3 (10%) |
| Ddim yn gwybod | 1 (3%) |

**C3.8 A ydych yn treulio mwy na 2 awr allan o'ch cell fel arfer ar ddydd Sadwrn a dydd Sul?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 27 (87%) |
| Nac ydw | 4 (13%) |
| Ddim yn gwybod | 0 (0%) |

## Bwyd a chantîn

**C4.1 Sut beth yw'r bwyd yma?**

| | |
|---|---|
| Da iawn | 0 (0%) |
| Eithaf da | 18 (60%) |
| Eithaf gwael | 8 (27%) |
| Gwael iawn | 4 (13%) |

**C4.2 Ydych chi'n cael digon i'w fwyta amser bwyd?**

| | |
|---|---|
| Bob amser | 6 (19%) |
| Y rhan fwyaf o'r amser | 13 (41%) |
| Weithiau | 9 (28%) |
| Byth | 4 (13%) |

**C4.3 Ydy'r cantîn yn gwerthu'r pethau sydd eu hangen arnoch?**

| | |
|---|---|
| Ydy | 19 (59%) |
| Nac ydy | 10 (31%) |
| Ddim yn gwybod | 3 (9%) |

## Iechyd a lles

**C5.1 Pa mor hawdd neu anodd yw gweld y staff iechyd canlynol?**

| | Hawdd | Anodd | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Doctor | 15 (45%) | 9 (27%) | 9 (27%) |
| Nyrs | 29 (88%) | 3 (9%) | 1 (3%) |
| Deintydd | 14 (44%) | 12 (38%) | 6 (19%) |
| Gweithwyr iechyd meddwl | 24 (73%) | 3 (9%) | 6 (18%) |

**C5.2 Oes gennych chi unrhyw broblemau iechyd (gan gynnwys problemau iechyd meddwl)?**

| | |
|---|---|
| Oes | 15 (47%) |
| Nac oes | 17 (53%) |

**C5.3 Ydych chi wedi cael help gyda'ch problemau iechyd ers i chi fod yma?**

| | |
|---|---|
| Do | 10 (31%) |
| Naddo | 5 (16%) |
| Does gen i ddim problemau iechyd | 17 (53%) |

**C5.4 Oes gennych chi anabledd? Mae hyn yn cynnwys unrhyw anghenion corfforol, meddyliol neu ddysgu sy'n effeithio ar eich bywyd o ddydd i ddydd.**

| | |
|---|---|
| Oes | 17 (55%) |
| Nac oes | 14 (45%) |

**C5.5 Os oes gennych chi anabledd, ydych chi'n cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnoch?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 7 (26%) |
| Nac ydw | 6 (22%) |
| Does gen i ddim anabledd | 14 (52%) |

**C5.6 Oedd gennych chi broblem alcohol pan ddaethoch chi yma?**

| | |
|---|---|
| Oedd | 1 (3%) |
| Nag oedd | 31 (97%) |

**C5.7 Oedd gennych chi broblem cyffuriau pan ddaethoch chi yma?**

| | |
|---|---|
| Oedd | 15 (47%) |
| Nag oedd | 17 (53%) |

**C5.8 Ydych chi wedi cael help gyda'ch problem alcohol neu gyffuriau ers i chi fod yma?**

| | |
|---|---|
| Do | 6 (19%) |
| Naddo | 9 (28%) |
| Doedd gen i ddim problem cyffuriau nac alcohol | 17 (53%) |

**C5.9 Ydych chi'n cael treulio amser y tu allan yn yr awyr iach y rhan fwyaf o ddiwrnodau (heb gynnwys yr amser rydych chi'n ei dreulio yn mynd i'r gweithgareddau ac oddi yno)?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 22 (71%) |
| Nac ydw | 6 (19%) |
| Ddim yn gwybod | 3 (10%) |

**C5.10 Pa mor aml fyddwch chi'n mynd i'r gampfa neu'n cymryd rhan mewn chwaraeon?**

| | |
|---|---|
| Mwy nag unwaith yr wythnos | 26 (84%) |
| Tua unwaith yr wythnos | 4 (13%) |
| Llai nag unwaith yr wythnos | 1 (3%) |
| Byth | 0 (0%) |

## Cwynion

**C6.1 Ydych chi'n gwybod sut i gwyno?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 27 (87%) |
| Nac ydw | 4 (13%) |

**C6.2 Os ydych chi wedi gwneud unrhyw gwynion yma, atebwch y cwestiynau isod:**

| | Do | Naddo | Heb wneud unrhyw gwynion |
|---|---|---|---|
| A gafodd eich cwynion eu trin yn deg fel arfer? | 1 (3%) | 8 (28%) | 20 (69%) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A wnaeth rhywun ddelio â'ch cwynion o fewn 7 diwrnod? | 1 (3%) | 8 (28%) | 20 (69%) |

**C6.3 Ydych chi erioed wedi teimlo gormod o ofn gwneud cwyn?**

Do........................................................................................ 7 (23%)
Naddo.................................................................................... 9 (30%)
Erioed wedi bod eisiau cwyno ................................................. 14 (47%)

## Diogelwch

**C7.1 Ydych chi erioed wedi teimlo eich bod chi ddim yn ddiogel yma?**

Do........................................................................................ 9 (29%)
Naddo.................................................................................... 22 (71%)

**C7.2 Ydych chi'n teimlo eich bod chi ddim yn ddiogel ar hyn o bryd?**

Ydw ...................................................................................... 3 (10%)
Nac ydw................................................................................. 28 (90%)

**C7.4 Ydy cloch frys neu intercom eich cell yn cael ei ateb o fewn 5 munud fel arfer?**

Ydy ....................................................................................... 24 (89%)
Nac ydy ................................................................................. 2 (7%)
Ddim yn gwybod.................................................................... 1 (4%)

**C7.5 Ydy pobl ifanc eraill yma erioed wedi gwneud unrhyw un o'r canlynol i chi?** (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

Cam-drin geiriol ...................................................................... 9 (35%)
Bygythiadau neu frawychu ..................................................... 7 (27%)
Ymosodiad corfforol ............................................................... 3 (12%)
Ymosodiad rhywiol ................................................................. 2 (8%)
Cael eich gorfodi i ymosod ar berson ifanc arall....................... 1 (4%)
Lladrad cantîn neu eiddo ........................................................ 4 (15%)
Bwlio neu erledigaeth arall ..................................................... 4 (15%)
Dydy'r bobl ifanc yma ddim wedi gwneud unrhyw un o'r pethau hyn i mi ................................................................... 15 (58%)

**C7.6 Pe baech chi'n cael eich bwlio/erlid gan bobl ifanc eraill yma, a fyddech chi'n rhoi gwybod amdano?**

Byddwn.................................................................................. 9 (33%)
Na fyddwn ............................................................................. 18 (67%)

**C7.7 Ydy'r staff yma erioed wedi gwneud unrhyw un o'r canlynol i chi?** (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

Cam-drin geiriol ...................................................................... 6 (24%)
Bygythiadau neu frawychu ..................................................... 6 (24%)
Ymosodiad corfforol ............................................................... 2 (8%)
Ymosodiad rhywiol ................................................................. 1 (4%)
Lladrad cantîn neu eiddo ........................................................ 2 (8%)
Bwlio neu erledigaeth arall ..................................................... 5 (20%)
Dydy'r staff yma ddim wedi gwneud unrhyw un o'r pethau hyn i mi................................................................................. 17 (68%)

**C7.8 Pe baech chi'n cael eich bwlio/erlid gan aelodau staff yma, a fyddech chi'n rhoi gwybod am hynny?**

Byddwn.................................................................................. 17 (59%)
Na fyddwn ............................................................................. 12 (41%)

## Rheoli ymddygiad

**C8.1 Ydy'r gwobrwyon neu'r cymhellion ar gyfer ymddygiad da yn eich annog i ymddwyn yn dda?**

| | |
|---|---|
| Ydy | 19 (61%) |
| Nac ydy | 10 (32%) |
| Ddim yn gwybod | 2 (6%) |

**C8.2 Ydych chi'n meddwl bod y system o wobrwyon neu gymhellion yn deg?**

| | |
|---|---|
| Ydy | 18 (58%) |
| Nac ydy | 10 (32%) |
| Ddim yn gwybod | 3 (10%) |

**C8.3 Ydy staff fel arfer yn rhoi gwybod i chi pan fyddwch chi wedi ymddwyn yn dda?**

| | |
|---|---|
| Ydy | 16 (52%) |
| Nac ydy | 15 (48%) |

**C8.4 Os byddwch chi'n mynd i drwbl, a yw'r staff fel arfer yn esbonio beth rydych chi wedi'i wneud o'i le?**

| | |
|---|---|
| Ydy | 22 (73%) |
| Nac ydy | 5 (17%) |
| Ddim yn berthnasol (erioed wedi bod mewn trwbl yma) | 3 (10%) |

**C8.5 Os ydych chi wedi cael eich ffrwyno (e.e. MMPR) ers i chi fod yma, a ddaeth aelod o staff i siarad â chi am y peth wedyn?**

| | |
|---|---|
| Do | 15 (50%) |
| Naddo | 2 (7%) |
| Ddim yn cofio | 4 (13%) |
| Erioed wedi cael fy atal yma | 9 (30%) |

**C8.6 Ers i chi fod yma, ydych chi erioed wedi cael eich cadw dan glo a'ch atal rhag cymysgu gyda phobl ifanc eraill fel cosb?**

| | |
|---|---|
| Do | 19 (61%) |
| Naddo | 12 (39%) |

## Staff

**C9.1 Ydych chi'n teimlo bod y staff yn poeni amdanoch chi?**

| | |
|---|---|
| Ydy | 19 (63%) |
| Nac ydy | 11 (37%) |

**C9.2 Ydy'r rhan fwyaf o'r staff yma yn eich trin chi â pharch?**

| | |
|---|---|
| Ydy | 23 (77%) |
| Nac ydy | 7 (23%) |

**C9.3 Petai gennych chi broblem, a oes unrhyw staff yma y gallech chi droi atynt am help?**

| | |
|---|---|
| Oes | 23 (77%) |
| Nac oes | 7 (23%) |

## Ffydd

**C10.1 Beth yw eich crefydd?**

| | |
|---|---|
| Dim crefydd | 14 (45%) |

Cristion (gan gynnwys Eglwys Loegr, Catholig, a changhennau eraill o Gristnogaeth) ........................................ 9 (29%)
Bwdhydd........................................................................................ 0 (0%)
Hindŵ ........................................................................................... 0 (0%)
Iddew............................................................................................. 0 (0%)
Mwslim .......................................................................................... 8 (26%)
Sikh ............................................................................................... 0 (0%)
Arall ............................................................................................... 0 (0%)

**C10.2 A yw eich credoau crefyddol yn cael eu parchu yma?**

Ydy ................................................................................................ 15 (50%)
Nac ydy ......................................................................................... 1 (3%)
Ddim yn gwybod ............................................................................ 0 (0%)
Amherthnasol (dim crefydd) ......................................................... 14 (47%)

**C10.3 Ydych chi'n gallu siarad â chaplan eich ffydd yn breifat, os ydych chi eisiau gwneud hynny?**

Ydw ............................................................................................... 14 (45%)
Nac ydw......................................................................................... 1 (3%)
Ddim yn gwybod ............................................................................ 2 (6%)
Amherthnasol (dim crefydd) ......................................................... 14 (45%)

## Cadw mewn cysylltiad â theulu neu ffrindiau

**C11.1 Oes unrhyw un yma wedi eich helpu i gadw mewn cysylltiad â'ch teulu a'ch ffrindiau?**

Oes................................................................................................ 25 (86%)
Nac oes ......................................................................................... 4 (14%)

**C11.2 Pa mor hawdd neu anodd yw hi i'ch teulu a'ch ffrindiau gyrraedd yma?**

Hawdd iawn ................................................................................... 4 (13%)
Eithaf hawdd.................................................................................. 11 (37%)
Eithaf anodd .................................................................................. 8 (27%)
Anodd iawn.................................................................................... 6 (20%)
Ddim yn gwybod ............................................................................ 1 (3%)

**C11.3 Pa mor aml ydych chi'n cael ymweliadau gan deulu neu ffrindiau?**

Mwy nag unwaith yr wythnos........................................................ 2 (7%)
Tua unwaith yr wythnos................................................................ 8 (27%)
Llai nag unwaith yr wythnos ......................................................... 11 (37%)
Ddim yn berthnasol (heb gael unrhyw ymweliadau) ..................... 9 (30%)

**C11.4 Pa mor aml ydych chi'n cael galwadau fideo diogel gyda'ch teulu neu ffrindiau?**

Mwy nag unwaith yr wythnos........................................................ 2 (6%)
Tua unwaith yr wythnos................................................................ 9 (29%)
Llai nag unwaith yr wythnos ......................................................... 6 (19%)
Ddim yn berthnasol (heb gael unrhyw alwadau fideo diogel) ... 14 (45%)

## Addysg a hyfforddiant

**C12.1 Ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r gweithgareddau canlynol ar hyn o bryd?**
(Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

Addysg ........................................................................................... 28 (90%)
Hyfforddiant ar gyfer swydd (hyfforddiant galwedigaethol)...... 8 (26%)
Gwaith cyflogedig .......................................................................... 0 (0%)

Ymyriadau (e.e. rhaglenni ymddygiad troseddol) .................... 2 (6%)
Dim un o'r rhain ..................................................................... 2 (6%)

**C12.2 Ydy'r staff yn eich annog i fynychu addysg, hyfforddiant neu waith?**

Ydy ............................................................................................ 24 (77%)
Nac ydy ...................................................................................... 7 (23%)

**C12.3 Ydych chi wedi dysgu unrhyw beth yma a fydd yn eich helpu pan gewch eich rhyddhau (e.e. addysg neu sgiliau)?**

Do.............................................................................................. 23 (74%)
Naddo......................................................................................... 8 (26%)

## Paratoi i symud ymlaen

**C13.1 A fyddwch yn trafod cynllun mewn cyfarfodydd gyda'ch gweithiwr o'r Tîm Troseddwyr Ifanc sy'n nodi'r hyn y mae angen i chi weithio arno tra byddwch chi yma (e.e. eich targedau neu eich amcanion)?**

Byddaf ........................................................................................ 12 (43%)
Na fyddaf .................................................................................... 11 (39%)
Ddim yn gwybod ......................................................................... 5 (18%)

**C13.2 Ydych chi'n deall beth mae angen i chi ei wneud i gyflawni'ch amcanion neu'ch targedau?**

Ydw ............................................................................................ 11 (39%)
Nac ydw...................................................................................... 1 (4%)
Ddim yn gwybod beth yw fy amcanion neu fy nhargedau......... 16 (57%)

**C13.3 Ydy'r staff yma yn eich helpu i gyflawni eich amcanion neu'ch targedau?**

Ydy ............................................................................................ 8 (30%)
Nac ydy ...................................................................................... 3 (11%)
Ddim yn gwybod beth yw fy amcanion neu fy nhargedau......... 16 (59%)

**C13.4 Oes unrhyw un yma yn eich helpu chi i baratoi ar gyfer pan fyddwch chi'n gadael?**

Oes............................................................................................. 12 (46%)
Nac oes ...................................................................................... 14 (54%)

**C13.5 Ydych chi wedi cael dweud eich dweud o ran beth fydd yn digwydd i chi pan fyddwch chi'n gadael yma?**

Do.............................................................................................. 13 (48%)
Naddo......................................................................................... 14 (52%)

## Cwestiynau olaf am y Sefydliad Troseddwyr Ifanc hwn

**C14.1 Ydych chi'n meddwl bod eich profiadau yma wedi eich gwneud chi'n fwy neu'n llai tebygol o droseddu yn y dyfodol?**

Yn fwy tebygol o droseddu ....................................................... 4 (15%)
Yn llai tebygol o droseddu ........................................................ 12 (44%)
Heb wneud gwahaniaeth ........................................................... 11 (41%)